



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2015 Rhif 1924 (Cy. 287)**

**2015 No. 1924 (W. 287)**

**LLESIANT, CYMRU**

**WELL-BEING, WALES**

Rheoliadau Deddf Llesiant  
Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)  
2015 (Darpariaethau Canlyniadol)  
2015

The Well-being of Future  
Generations (Wales) Act 2015  
(Consequential Provisions)  
Regulations 2015

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau canlyniadol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

These Regulations make consequential provisions in relation to the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 ("the Act").

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adran 15 o'r Ddeddf (yr egwyddor datblygu cynaliadwy: ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol) sy'n diffinio'r cyfnod adrodd ar gyfer ymchwiliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r adran hon i fod i ddod i rym lai na blwyddyn cyn etholiad cyffredinol arferol nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, efallai bod amheuaeth ynghylch pryd y mae'r cyfnod adrodd cyntaf a ddisgrifir yn is-adran (6) o adran 15 i ddechrau. Mae'r rheoliad hwn felly yn addasu adran 15(6)(a) i'w gwneud yn glir bod y cyfnod adrodd cyntaf o dan yr adran hon yn dechrau fis cyn yr etholiad nesaf (yn ymarferol 5 Ebrill 2016 fydd hyn).

Regulation 3 makes provision in relation to section 15 (the sustainable development principle: Auditor General's examinations) of the Act which defines the reporting period for the Auditor General for Wales's examinations. This section is due to come into force less than one year before the next ordinary general election to the National Assembly for Wales. Consequentially, there may be doubt as to when the first reporting period described in subsection (6) of section 15 is to begin. This regulation therefore modifies section 15(6)(a) to make it clear that the first reporting period under this section begins one month before the next election (in practice this will be 5 April 2016).

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("y Comisiynydd") mewn cysylltiad â'r amcangyfrifon o incwm a gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017. Mae paragraff 19 o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i'r Comisiynydd, ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac eithrio'r un gyntaf, lunio amcangyfrif o incwm a gwariant y Comisiynydd a'i staff. Yn unol â pharagraff 19(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno'r amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

Regulation 4 makes provision in relation to the Future Generations Commissioner for Wales ("the Commissioner") in respect of the estimates of income and expenses for the financial year 2016-2017. Paragraph 19 of Schedule 2 to the Act provides that for each financial year other than the first, the Commissioner must prepare an estimate of the income and expenses of the Commissioner and the Commissioner's staff. The Commissioner is required pursuant to paragraph 19(2) of Schedule 2 to the Act, to submit the estimate to the Welsh Ministers at least five months before the beginning of the financial year to which it relates.

O gofio'r cyfnod amser ar gyfer penodi'r Comisiynydd, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ganlyniadol sy'n addasu paragraff 19(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf fel bod rhaid i'r Comisiynydd, ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017 yn unig, gyflwyno'r amcangyfrif dri mis ar ôl ei benodiad gan Weinidogion Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Given the timeframe for the appointment of the Commissioner, the Regulations make consequential provision modifying paragraph 19(2) of Schedule 2 to the Act so that for financial year 2016-2017 only, the Commissioner must submit the estimate three months after the Commissioner is appointed by the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2015 Rhif 1924 (Cy. 287)**

**2015 No. 1924 (W. 287)**

**LLESIANT, CYMRU**

**WELL-BEING, WALES**

Rheoliadau Deddf Llesiant  
Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)  
2015 (Darpariaethau Canlyniadol)  
2015

The Well-being of Future  
Generations (Wales) Act 2015  
(Consequential Provisions)  
Regulations 2015

*Gwnaed* 17 Tachwedd 2015  
*Yn dod i rym* 23 Tachwedd 2015

*Made* 17 November 2015  
*Coming into force* 23 November 2015

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 53(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(1).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 53(1) of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015(1).

Yn unol ag adran 54(4)(c) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

In accordance with section 54(4)(c) of that Act, a draft of this instrument has been laid before and approved by resolution of the National Assembly for Wales.

**Enwi a chychwyn**

**Title and commencement**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015.

1.—(1) The title of these Regulations is the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (Consequential Provisions) Regulations 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Tachwedd 2015.

(2) These Regulations come into force on 23 November 2015.

**Dehongli**

**Interpretation**

2. Yn y Rheoliadau hyn—

2. In these Regulations—

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

“financial year” (“*blwyddyn ariannol*”) means the period of 12 months ending with 31 March.

**Darpariaeth ganlyniadol mewn perthynas â'r cyfnod cyntaf y mae rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal ymchwiliadau o'i fewn o dan adran 15 o'r Ddeddf**

3. Er gwaethaf adran 15(6)(a) o'r Ddeddf, mae'r cyfnod cyntaf y cyfeirir ato yn is-adrannau (2) a (3) o adran 15 yn dechrau ar y dyddiad sy'n digwydd fis cyn y dyddiad y mae etholiad cyffredinol arferol i'w gynnal o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1).

**Darpariaeth ganlyniadol mewn perthynas â Chomisynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: Amcangyfrif incwm a gwariant 2016-2017**

4. At ddibenion y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017, mae paragraff 19(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf i'w ddarllen fel pe bai "heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl penodiad y Comisiynydd o dan adran 17(2)" wedi ei roi yn lle "o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi".

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion  
Cymru  
17 Tachwedd 2015

**Consequential provision in relation to the first period within which the Auditor General must carry out examinations under section 15 of the Act**

3. Despite section 15(6)(a) of the Act, the first period referred to in subsections (2) and (3) of section 15 begins on the date falling one month before the date on which an ordinary general election is to be held under section 3 of the Government of Wales Act 2006(1).

**Consequential provision in relation to the Future Generations Commissioner for Wales: Estimate of income and expenses 2016-2017**

4. For the purposes of the financial year ending on 31 March 2017, paragraph 19(2) of Schedule 2 to the Act is to be read as if for "at least five months before the beginning of the financial year to which it relates" there were substituted "no later than three months after the Commissioner is appointed under section 17(2)".

Minister for Natural Resources, one of the Welsh  
Ministers  
17 November 2015

---

© Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

(1) 2006 p. 32.

---

(1) 2006 c. 32.

